

7.2 YSGOLION CYNRADD

Categori A. Yr Ardaloedd Cymraeg traddodiadol cydnabyddedig yn ogystal ag ysgolion a ffrydiau Cymraeg:

	Cwricwlwm	Iaith yr Ysgol	Canlyniadau
Cyfrwng Cymraeg CC	Cyfnod Sylfaen – trwy gyfrwng y Gymraeg. CA2 – o leiaf 70% o'r addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion ac iaith gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Bydd disgyblion, beth bynnag yw iaith eu cartref, yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac erbyn diwedd CA2 byddant wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion lle mae Saesneg yn brif gyfrwng.
Dwy Ffrwd Dff	Mae Cymraeg yn brif gyfrwng neu Saesneg yn brif gyfrwng yn bodoli gyda'i gilydd yn yr ysgolion hyn.	Defnyddir Cymraeg a Saesneg yng ngwaith pob dydd yr ysgol. Penderfynir yr iaith gyfathrebu ar sail natur y ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.	Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg – disgwyliadau arferol fel ar gyfer Categori 1. Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Saesneg – disgwyliadau arferol fel ar gyfer Categori 5.
Ysgol Drosiannol YD	Cyfnod Sylfaen – meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. CA2 – defnyddir y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Gymraeg– 50% -70%	Cymraeg yw iaith gwaith pob dydd yr ysgol. Blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.	Efallai y bydd rhai disgyblion, yn enwedig o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob disgybl wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion lle mae Saesneg yn brif gyfrwng.
Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg SC	Cyfnod Sylfaen - mae disgyblion yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Saesneg. CA2 - addysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Saesneg. Cymraeg yn gyfrwng addysgu neu ddysgu - rhwng 20% a 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol gan gynnwys ieithyddol yr ysgol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.	Disgwylir fel arfer y bydd disgyblion yn mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng Saesneg, ond y bydd eu sgiliau'n well yn y Gymraeg yn ail iaith. Rhai disgyblion yn gallu dilyn nifer gyfyngedig o bynciau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg
Ysgol-Cyfrwng Saesneg CS	Cyfnod Sylfaen – mae pob disgybl yn cael profiad o'r meysydd dysgu trwy gyfrwng Saesneg. CA2 – Addysgir y Gymraeg yn ail iaith. Mae llai nag 20% o'r addysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.	Saesneg yw iaith gwaith pob dydd yr ysgol – rhywfaint o gyfathrebu yn Gymraeg gyda disgyblion er mwyn gwella eu gallu iddefnyddio Cymraeg pob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn Saesneg neu yn y ddwy iaith.	

	Cwricwlwm	Iaith yr Ysgol	Canlyniadau
Cyfrwng Cymraeg CC	Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob disgybl. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.	Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith.	Bydd yr asesu yn CA3 ac CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mhob pwnc heblaw Saesneg neu ieithoedd eraill. Bydd disgyblion yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth Ôl-16 Cyfrwng Cymraeg.
Dwyieithog	Mae 4 o israniadau i'r categori hwn yn ôl y pynciau a addysgir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac a oes darpariaeth gyfochrog yn Saesneg. 2A Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig i bob disgybl. 2B Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu'r ddwy iaith 2C Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg. 2CH Addysgir 50-79% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg.. 2CH Addysgir pob pwnc (heblaw Saesneg a Chymraeg) i bob disgybl yn y ddwy iaith.	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Ar gyfer disgyblion yn 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer fwyaf o gyrsgau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, byddai'r asesu yn CA3 ac CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ac y byddent yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn pynciau a ddevisir. Ar gyfer disgyblion yn 2CH byddai'r asesu yn CA3 ac CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mhob pwnc heblaw Saesneg ac y byddent yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn pynciau a ddevisir.
Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg SC	Addysgir yn y ddwy iaith gan addysgu 20-49% o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai pop pwnc yn cael ei ddysgu fel arfer hefyd trwy gyfrwng Saesneg.	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn Saesneg.	Gellid asesu disgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny.
Ysgol cyfrwng Saesneg CS	Addysgir disgyblion yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg. Gellid addysgu Cymraeg a addysgir yn ail iaith hyd at CA4 (gallai gynnwys Cymraeg yn iaith gyntaf) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith.	Saesneg yw iaith bob dydd yr ysgol, ond mae rhywfaint o gyfathrebu yn Gymraeg gyda'r disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg pob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn Saesneg.	Gellid asesu unrhyw ddisgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu yn Saesneg ac yn symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng Saesneg.

C1. Dderbynioc chi unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar ddewis ysgol gynradd i'ch plentyn?

- Do
- Naddo (ewch i C3)

C2. Pa wybodaeth dderbynioc gan yr Awdurdod Addysg Lleol?

.....

C3. Dderbynioc chi unrhyw wybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall e.e Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddewis ysgol gynradd i'ch plentyn?

- Do
- Naddo (ewch i C6)

C4. Oddi wrth bwy dderbynioc chi wybodaeth?

.....

C5. Pa wybodaeth dderbynioc chi?

.....

C6. Dderbynioc chi unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar ddewis cyfrwng addysg (Cymraeg / Saesneg) i'ch plentyn?

- Do
- Naddo (ewch i C8)

C7. Pa wybodaeth dderbynioc chi gan yr Awdurdod Addysg Lleol?

.....

C8. Dderbynioc chi unrhyw wybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall ar ddewis cyfrwng addysg (Saesneg/Cymraeg) i'ch plentyn?

- Do
- Naddo (ewch i C11)

C9. Gan bwy dderbynioc chi wybodaeth ?

C10. Pa wybodaeth dderbynioc chi?

.....

C11. Pa mor bell o Ysgol A/B dych chi'n byw?

- Llai na milltir
- rhwng 1-2 filltir
- rhwng 2-3 milltir
- dros tair milltir

C11. Dych chi'n byw yn nalgylch yr ysgol? (Ysgol C)

- Ydw
- Nac ydw, os na ble dych chi'n byw?

C12. Wnaethoch chi ystyried danfon eich plentyn i ysgol arall?

- Do
- Naddo (ewch i C14)

C13. Os do, beth wnaeth i chi benderfynu yn erbyn danfon eich plentyn i'r ysgol honno?

.....

C14. Beth oedd eich prif reswm dros ddewis Ysgol C yn hytrach nag ysgol arall?

.....

C15. I ba raddau wnaeth y ffactorau isod ddylanwadu ar eich penderfyniad i ddewis ysgol i'ch plentyn? Nodwch gryfder y dylanwad drwy dicio'r bocs priodol.

	Cryf iawn	Cryf	Cymedrol	Gwan	Gwan iawn	Dim o gwbl
Lleoliad yr ysgol						
Canlyniadau Profion Athrawon						
Adroddiad Arolwg yr ysgol						
Cyfrwng yr addysg (Cymraeg)						
Polisi'r Llywodraeth						
Enw da'r ffrwd Gymraeg						
Ysgol Gyfun yn y dyfodol						
Cyfleoedd Allgyrsiol						
Mynychu noson rieni cyn i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol						
Cwrdd â Phennaeth yr ysgol cyn i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol						
Dylanwad aelodau o'r teulu						
Dylanwad ffrindiau						
Arall (nodwch isod os gwelwch yn dda)						

C16. Wnaethoch chi ystyried rhoi eich plentyn yn y ffrwd Saesneg?

Do

Naddo, os na pam?.....

.....(ewch i C18)

C17. Os do, beth wnaeth i chi benderfynu yn erbyn rhoi eich plentyn yn y ffrwd Saesneg?

.....

- C18. Cyn i'ch plentyn ddechrau yn Ysgol C, edrychoch chi ar ganlyniadau profion athrawon yr ysgol?**
 Do Naddo (ewch i C20)
- C19. Gymharoch chi ganlyniadau'r ffrwd Gymraeg gyda chanlyniadau'r ffrwd Saesneg?**
 Do Naddo
- C20. Pa ysgol Gyfun bydd eich plentyn yn mynychu ym mlwyddyn 7?**
 Bryngwyn Strade
 Coedcae Arall, os arall nodwch isod
 St John Lloyd
- C21. Cyn dewis ysgol gynradd edrychoch chi ar ganlyniadau TGAU yr ysgol gyfun y bydd eich plentyn yn mynychu ym mlwyddyn 7?**
 Do Naddo (ewch i C23)
- C22. Os do, gymharoch chi'r canlyniadau yma gyda chanlyniadau ysgol arall?**
 Do Naddo
- C23. Beth yw prif iaith cyfathrebu gyda'ch plentyn gartref?**
 Cymraeg yn unig y ddau'n gyfartal Saesneg yn bennaf
 Saesneg yn unig Cymraeg yn bennaf
- C24. Pa iaith yw eich iaith gyntaf chi?**
- C25. Ydych chi'n siarad, darllen neu ysgrifennu unrhyw iaith arall heblaw Saesneg yn weddol rugl?**
 Ydw, os ydw nodwch
- Nac ydw (ewch i C27)
- C26. Wnaeth bod yn ddwyieithog ddylanwadu ar eich dewis o ysgol?**
 Do, os do sut?.....
 Naddo
- C27. Ydych chi'n credu bod yna fanteision i fod yn ddwyieithog?**
 Ydw Nac ydw (ewch i C29)
- C28. Os ydw, beth ydych chi'n credu yw'r manteision yma?**

- C29. Fasech chi wedi rhoi'ch plentyn yn Ysgol C petai'r ysgol dim ond yn cynnig addysg cyfrwng Saesneg?**
 Baswn Na faswn, os na nodwch pam?.....

C30. Darllenwch y datganiadau isod a thiciwch pa un ai ydych chi'n credu eu bod nhw'n wir neu'n gau

	Gwir	Gau	Ddim yn gwybod
Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog			
Mae'r holl ysgolion yng Nghymru'n galluogi disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg cwbl rugl.			
Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru weld cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.			
Yn 2009 addysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i tua 20% o blant mewn ysgolion cynradd a gynhelir.			

C31. Darllenwch y datganiadau canlynol a thiciwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu anghytuno gyda phob un.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Hoffwn i'm plentyn allu siarad Cymraeg yn rhugl					
Dylai pob plentyn adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg waeth pa ysgol y mynychodd ef/hi.					

C32. Beth ystyriwch yw'ch cenedl?

- Seisnig
 Gwyddelig
 Albanaidd
 Cymreig
 Arall

Os arall nodwch

C33. Pa rai o'r cymwysterau hyn sy'n berthnasol i chi? (ticiwch y cymhwyster ucha)

- | | |
|---|---|
| <input type="checkbox"/> Dim cymwysterau | <input type="checkbox"/> Cymhwyster ôl radd (ee MA, PhD, TAR) |
| <input type="checkbox"/> 1+ lefel O / TGAU / CSEs (unrhyw radd) | <input type="checkbox"/> NVQ lefel 1, GNVQ sylfaen |
| <input type="checkbox"/> 5+ lefel O / TGAU (A-C) / CSEs (gradd 1) | <input type="checkbox"/> NVQ lefel 2, GNVQ canolradd |
| <input type="checkbox"/> 1+ lefel A / lefel UG | <input type="checkbox"/> NVQ lefel 3, GNVQ uwch |
| <input type="checkbox"/> 2+ lefel A, 4+ lefel UG | <input type="checkbox"/> NVQ lefel 4, HNC, HND |
| <input type="checkbox"/> Gradd gyntaf (ee BA, BSc) | <input type="checkbox"/> Cymhwyster arall (ee City & Guilds, RSA/OCR, BTEC/Edexcel) |

C34. Unrhyw sylwadau eraill:

.....

Diolch am gwblhau'r holiadur hwn.



VERNON MORGAN, B.A., Cert. Ed.

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Director of Education and Children's Services
County Hall, Carmarthen SA31 1JP

Ffôn • Tel :
01267 224843

Ffacs • Fax :
01267 224147

e-bost • e-mail :
VMorgan@sirgar.gov.uk
VMorgan@carmarthenshire.gov.uk

Eich cyf • Your ref :

Gofynner am • Please ask for : Vernon Morgan

Fy nghyf • My ref : VM/JP

Linell Union gyrchol • Direct Line: 01267 224843

Dyddiad • Date : 27 Tachwedd 2009

Ms Llinos Davies
'Crwys'
51 Heol Llannon
Y Tymbl
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 6BT

Annwyl Llinos Davies

Diolch ichi am eich llythyr diweddar ynghylch eich dymuniad i gynnal ymchwil fel rhan o'ch cwrs Meistr yn y Celfyddydau. Gan dderbyn eich ymrwymiad i gadw eich canfyddiadau'n gyfrinachol, rwyf yn fodlon ichi gysylltu â'r tair ysgol a nodwyd yn eich llythyr.

Rwy'n gobeithio y bydd eich astudiaethau'n mynd yn hwylus a'ch bod yn cwblhau eich cwrs yn llwyddiannus.

Yn gywir


Vernon Morgan
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Vernon Morgan - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant • Vernon Morgan - Director of Education and Children's Services

1. Sut ydych chi'n marchnata'r ysgol?
2. Beth ydych chi'n ei farchnata?
3. I ba raddau caiff dwyieithrwydd ei farchnata?
4. Pam mae rhieni yn eich barn chi wedi dewis gosod eu plant yn Ysgol X?
5. Yn eich barn chi, i ba raddau caiff canlyniadau academiaidd yr ysgol (asesiadau athrawon) ddylanwad ar ddewis rhieni o ysgol?
6. Pa mor hawdd yw hi i rieni ddod o hyd i ganlyniadau asesuadau athrawon?
7. I ba raddau, yn eich barn chi, caiff adroddiad arolygiad gan Estyn ddylanwad ar ddewis rhieni o ysgol gynradd?
8. Pa mor hawdd yw hi i rieni ddod o hyd i gopi o'r adroddiad mwyaf diweddar?
9. Yn eich barn chi, i ba raddau caiff canlyniadau TGAU ysgolion cyfun yr ardal ddylanwad ar ddewis rhieni o ysgol gynradd?
10. Pa mor hawdd yw hi i rieni ddod o hyd i ganlyniadau TGAU?
11. I ba raddau, yn eich barn chi, caiff ysgol gyfun y dyfodol ddylanwad ar ddewis rhieni o ysgol gynradd?
12. Yn eich barn chi, i ba raddau mae cyfrwng yr addysg yn dylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol gynradd?

13. Yn eich barn chi, i ba raddau caiff polisi llywodraeth ddylanwad ar ddewis rhieni o ysgol gynradd?
14. Ydych chi'n credu bod rhieni yn ymwybodol o'r gwahaniaethau ieithyddol sydd rhwng gwahanol ysgolion?
15. I ba raddau, yn eich barn chi, y gall yr AALI hyrwyddo addysg cyfrwng-Cymraeg ar draul addysg cyfrwng-Saesneg?